Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Cytundebau rhyngwladol

## Cytundeb a drafodwyd ar 13 Chwefror 2023

Chwefror 2023

www.senedd.cymru

# 1. Cefndir

**1.** Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am graffu ar gytundebau rhyngwladol yn y chweched Senedd nad ydynt yn ymwneud â masnach.

**2.** Gall cytundebau rhyngwladol a lofnodir gan Lywodraeth y DU ymdrin â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu faterion sydd â goblygiadau polisi sy'n bwysig i Gymru.

**3.** Bydd y Pwyllgor yn ystyried effaith cytundebau rhyngwladol ar Gymru mewn cysylltiad â'r rhai a osodir yn Senedd y DU o dan y broses a sefydlwyd gan *Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010* (Deddf 2010). Mae'n darparu cyfnod craffu cychwynnol o 21 diwrnod.

**4.** Mae ein trafodaethau ynghylch cytundeb rhyngwladol yn ystyried:

- a yw'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd; a/neu
- a oes goblygiadau polisi posibl i Gymru.

**5.** Ar 13 Chwefror 2023,[1] gwnaethom drafod cytundeb rhyngwladol a osodwyd yn ddiweddar yn Senedd y DU: y cytundeb rhwng y DU a'r Eidal ar gydnabyddiaeth gilyddol ynghylch trwyddedau gyrru at ddibenion cyfnewid.

**6.** Gwnaethom gytuno i gymryd camau pellach mewn perthynas â'r cytundeb; mae manylion pellach wedi'u nodi isod.

[1] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Chwefror 2023

# 2. Cytundeb wedi'i nodi er gwybodaeth

**Y DU/Yr Eidal: Cytundeb ar gydnabyddiaeth gilyddol ynghylch trwyddedau gyrru at ddibenion cyfnewid**

**7.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 11 Ionawr 2023. Y terfyn amser ar gyfer craffu arno, fel sy'n ofynnol gan *Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010*, yw 21 Chwefror 2023.

**8.** Mae'r cytundeb hwn yn rhoi'r hawl i ddeiliad trwydded y DU sydd eisoes yn preswylio yn yr Eidal, neu a fydd yn dod yn breswylydd yno yn y dyfodol, gyfnewid ei drwydded yrru ar gyfer y DU heb fod angen iddo wneud prawf gyrru ymarferol neu brawf gyrru theori pellach. O dan y cytundeb hwn, byddai deiliad trwydded o'r Eidal sydd eisoes yn preswylio yn y DU, neu a fydd yn dod yn breswylydd yn y DU yn y dyfodol, yn cael ei drin yn yr un modd.

**9.** Yn flaenorol, roedd cyfraith yr UE yn darparu ar gyfer cydnabyddiaeth gilyddol o drwyddedau gyrru rhwng y DU â'r Eidal. Daeth y trefniant hwn i ben wrth i'r DU ymadael â'r UE. Er bod y DU yn rhan o Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig sy'n llywodraethu cydnabyddiaeth gilyddol mewn perthynas â thrwyddedau, mae'r confensiynau hynny'n berthnasol i ymweliadau dros dro yn unig, ac nid i drefniadau preswylio.

**10.** Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y cytundeb yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi sicrhau bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn ymwybodol o'r trafodaethau a'r hawliau a fydd yn cael eu caniatáu o dan y Cytundeb.[2]

**11.** Mae'r cytundeb yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl (trwyddedu gyrwyr) o fewn Atodlen 7A i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

**12.** Fodd bynnag, gan fod y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn monitro hawliau dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru wedi i'r DU ymadael â'r UE, gwnaethom gytuno y dylid tynnu sylw'r Pwyllgor hwnnw at y cytundeb.

[2] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Yr Eidal: Cytundeb ar gydnabyddiaeth gilyddol ynghylch trwyddedau gyrru at ddibenion cyfnewid, Ionawr 2023, paragraff 1.32